## Simon o Cyrene

'Du ydwyf, ond prydferth'
(Negro a fu'n cydweithio â'r Parchedig T. E. Nicholas a'i fab Islwyn ap Nicholas am wythnos yn y carchar yn ystod yr Ail Ryfel Byd.)

Du ydwyt frawd, ond prydferth megis ebon,
A'th wydn gyhyrau fel y gwifrau dur,
Crychni dy wallt yn rhwydo yr awelon,
A'th fynwes yn dygyfor serch a chur.
Pwy a fynega fesur dy radlondeb
A'th fonedd a'th deyrngarwch ym mhob ffawd?
Dy wên o glust i glust, a'th ddall ffyddlondeb
I'th berchen gwyn a'th geidw'n fythol dlawd.
Nid oes i ti na dinasyddiaeth mamwlad,
Na rhan na chyfran yn y breintiau mawr;
Tydi y dua'i groen a'r mwyna'i deimlad,
Fe'th gedwir am dy liw yn llwch y llawr.
Ti roddaist, gymrawd croenddu, ym mhob oes
Ysgwydd ddolurus dan ben tryma'r Groes.

***T. E. Nicholas***